# Arolygiad o Wasanaethau Mamolaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan:Cynllun Gwella Uniongyrchol

## Gwasanaeth: Ysbyty Brenhinol Gwent

## Ardal: Ward B4, Ward B5 a'r Ward Esgor

## Dyddiad Arolygu: 2 – 4 Medi 2019

| **Darparu gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Yr hyn sydd angen ei wella** | **Rheoliad/Safon** | **Cam gweithredu'r gwasanaeth** | **Swyddog cyfrifol** | **Amserlen** |
| **<u>Canfyddiad</u>**<br><br>Ystyriodd y tîm arolygu y trefniadau ar gyfer archwilio'r cyfarpar brys ar Ward B4, B5 ar Ward Esgor.<br><br>Gwelsom nad oedd yr archwiliadau o'r cyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio mewn argyfwng gyda chlaf yn ddigonol. Nid oedd yr archwiliadau'n gyson ac nid oedd y cofnodion yn nodi eu bod yn cael eu cynnal bob dydd.<br>Gwelsom hyn o ran y cyfarpar canlynol: | 2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch<br><br>2.9 Dyfeisiau Meddygol, Offer a Systemau Diagnostig | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ☐ Cyfarpar dadebru ar gyfer babanod newydd-anedig<br><br>Roedd yn destun pryder nodi bod sylw'r bwrdd iechyd wedi cael ei dynnu at y mater hwn yn dilyn arolygiad Mamolaeth ym mis Gorffennaf 2019, gydag argymhelliad i sicrhau bod gwelliannau yn cael eu gwneud ym mhob ward ac adran yn y bwrdd iechyd.<br><br>**<u>Yr hyn sydd angen ei wella</u>**<br><br>**Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd i sicrhau bod y cyfarpar dadebru ar gyfer babanod newydd-anedig yn cael ei archwilio bob dydd yn unol â'i bolisi.** | | Codwyd y mater o archwilio cyfarpar fel rhan o adolygiad AGIC o'r Gwasanaethau Mamolaeth yn Ysbyty Nevill Hall, felly mae'n siomedig canfod nad oedd y prosesau archwilio wedi sicrhau cydymffurfiaeth yn dilyn ei adolygiad o Ysbyty Brenhinol Gwent, am fod gohebiaeth ffurfiol wedi'i hafon at y staff er mwyn tynnu sylw at bwysigrwydd cynnal archwiliadau sylfaenol bob dydd.<br><br>Cyflwynwyd gohebiaeth ffurfiol ychwanegol i'r Timau Bydwreigiaeth yn Ysbyty Brenhinol Gwent, gan atgyfnerthu'r angen i gynnal archwiliadau diogelwch o'r cyfarpar. Mae'r Uwch-reolwyr Bydwreigiaeth hefyd yn | Pennaeth Bydwreigiaeth | **Cwblhawyd** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | cadarnhau cydymffurfiaeth drwy gynnal archwiliadau dyddiol bob wythnos, a mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion ar unwaith. | | |

**Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth**

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **<u>Canfyddiad</u>**<br><br>Ystyriodd y tîm arolygu y trefniadau ar gyfer cyfrinachedd cleifion a chydymffurfiaeth â Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) ar gyfer Gwybodaeth Llywodraethu ar Ward B4, B5 a'r Ward Esgor.<br><br>Ar Ward B4, gwelsom nad oedd gwybodaeth cleifion cael ei rheoli na'i storio'n ddiogel er mwyn atal mynediad anawdurdodedig a chynnal cyfrinachedd cleifion. Roedd hyn yn cynnwys y canlynol:<br><br>Troli yn cynnwys cofnodion cleifion ar y ward ôl-enedigol a oedd heb ei gloi ac wedi'i leoli ar goridor a oedd yn hawdd i gleifion ac ymwelwyr ei gyrraedd.<br><br>Roedd yn destun pryder nodi bod sylw'r bwrdd iechyd eisoes wedi cael ei dynnu at y | 3.5 Cadw Cofnodion | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| mater hwn yn dilyn arolygiad ym mis Gorffennaf 2019, gydag argymhelliad i sicrhau bod angen gwneud gwelliannau ym mhob ward ac adrannau yn y bwrdd iechyd.<br><br>**<u>Yr hyn sydd angen ei wella</u>**<br><br>**Rhaid i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau bod systemau priodol ar waith sy'n amddiffyn cyfrinachedd cleifion, ac yn atal unrhyw fynediad anawdurdodedig i gofnodion cleifion bob amser.** | | Llyfr o Dderbyniadau i'r Ward oedd hwn. Mae manylion Derbyn cleifion yn cael eu cadw ar system gyfrifiadurol CWS, felly nid oedd y llyfr y daethpwyd o hyd iddo yn y drôr yn berthnasol mwyach.<br><br>Cymerwyd camau ar unwaith ar adeg yr arolygiad i symud y llyfr derbyn o ddrôr y troli a'i storio mewn swyddfa ddiogel.<br><br>Yn dilyn ymweliad AGIC ag Ysbyty Nevill Hall, codwyd y mater o storio gwybodaeth am gleifion yn ddiogel. Cyflwynwyd gohebiaeth ffurfiol ar draws y Bwrdd Iechyd ar yr adeg honno. Cyflwynwyd gohebiaeth ffurfiol i'r timau yn Ysbyty Brenhinol Gwent, gan gydnabod bod y problemau yn Ysbyty Nevill Hall a'r problemau yn Ysbyty Brenhinol Gwent yn wahanol, er eu bod yn ymwneud â thema cyfrinachedd cleifion. | Pennaeth Bydwreigiaeth | **CWBLHAWYD**<br><br>**CWBLHAWYD** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

**Cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd:**

**Enw (priflythrennau):** **Deb Jackson**

**Rôl:** **Pennaeth Bydwreigiaeth**

**Dyddiad:** **12 Medi 2019**